Gweiddi

# Llond sill o lyfrau pobi

1. Crynhowch gynnwys y gerdd fesul pennill mewn brawddeg bob tro.

Pennill 1

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

Pennill 2

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

Pennill 3

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

Pennill 4

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

Pennill 5

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

Pennill 6

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

2. Crynhowch gynnwys y paragraff am effaith ddiwylliannol y *Bake Off* mewn pwyntiau bwled, fel yn:

Ers i'r rhaglen *The Great British Bake Off* ymddangos ar y teledu, mae mwy o:

- ...........................................................................................
- ...........................................................................................
- ...........................................................................................
- ...........................................................................................
- ...........................................................................................
- ...........................................................................................

3. Ydy'r gerdd a'r paragraff yn cyflwyno'r un safbwynt? Nodwch resymau am eich barn.

4. Meddyliwch am o leiaf **chwe ansoddair** i ddisgrifio'r person a ysgrifennodd y gerdd, a nodwch pam rydych chi wedi dewis yr ansoddair bob tro.

i. ...........................................................................................................

ii. ...........................................................................................................

iii. ...........................................................................................................

iv. ...........................................................................................................

v. ...........................................................................................................

vi. ...........................................................................................................

5. Ydych chi'n adnabod person sydd wedi prynu llawer o offer er mwyn dilyn diddordeb, ond sydd byth yn eu defnyddio, neu berson sydd heb lawer o ddawn ar gyfer rhyw ddiddordeb? Soniwch wrth eraill am y person, neu/ac ysgrifennwch baragraff byr amdano/amdani.

6. Meddyliwch am ymadrodd Cymraeg a fyddai'n cyfateb i'r ymadrodd Saesneg, '*All the gear, no idea*'. Defnyddiwch odl neu gyflythreniad er mwyn i'r ymadrodd fod yn fachog.

.............................................................................................................................

7. Ydych chi'n gwybod am rywun sydd wedi dechrau pobi ar ôl gwylio'r *Bake Off*? Neu efallai bod busnes pobi newydd wedi codi yn eich ardal. Soniwch wrth eraill, neu/ac ysgrifennwch ychydig o frawddegau am hyn.

8. Chwiliwch am ymadroddion o'r gerdd sy'n cyfateb i'r canlynol:

   i. Rwyf wrth fy modd ....................................................

   ii. Dydw i ddim yn cofio ....................................................

   iii. Ei gwybodaeth a'i thalent ....................................................

   iv. Dydy'r cyffro byth yn gorffen ....................................................

   v. Dim o werth ....................................................

9. Beth yw patrwm y gerdd? Cyfrwch y sillafau yn y llinellau a nodwch ble mae'r odl ym mhob pennill.
   Sylwch ar yr ymadrodd: 'y dawnus rai'. Ai yn y drefn hon y bydden ni'n rhoi'r geiriau hyn fel arfer? Ydy rhoi'r geiriau yn y drefn hon yn creu effaith arbennig?

10. Edrychwch ar y ferf hon: **gwnâi** (ym mhennill 5 mae wedi cael ei threiglo'n feddal).

**Gwnâi** = *Roedd fy mam yn (arfer) gwneud*. Dyma amser amherffaith y ferf 'gwneud'.

**Gwna** yn **bôn gwneud**, ac mae'r terfyniad **–ai** yn dangos mai **ef** neu **hi** oedd yn gwneud (3ydd person unigol).

**gwna + ai** = gwnâi (mae'r **â** yn dangos bod dwy **a** wedi dod at ei gilydd).

Llenwch y tabl gyda berfau **–ai** eraill. Mae un wedi'i rhoi i chi:

| | |
|---|---|
| Roedd ef/hi yn darllen. | **darllenai** |
| Roedd ef/hi yn canu. | |
| Roedd ef/hi yn coginio. | |
| Roedd ef/hi yn poeni. | |
| Roedd ef/hi yn bwyta | |
| Roedd ef/hi yn eistedd | |
| Roedd ef/hi yn cerdded | |
| Roedd ef/hi yn meddwl. | |

Dewiswch bump o'r berfau hyn a'u rhoi mewn brawddegau eich hun. Ceisiwch amrywio'r brawddegau; peidiwch â rhoi'r ferf yn gyntaf bob tro.

i. ..........................................................................................

ii. ..........................................................................................

iii. ..........................................................................................

iv. ..........................................................................................

v. ..........................................................................................

11. Cyn i’r darn o Wikipedia gael ei roi ar y we, roedd yn wallus iawn. Golygwch y darn (gallwch wirio a ydych wedi cywiro’r darn yn gywir drwy edrych ar y darn gwreiddiol).

**Effaith ddiwyliannol y *Bake Off*, yn ôl gwefan Wikipedia:**

Mae’r sioe wedi dod yn rhan pwysig o diwylliant Prydain ac wedi ysgogi diddordeb mewn pobi gartref. Mae archfarchnadoedd a siopau arall yn y DU yn dweud bod llawer mwy o cynhwysion ac offer pobi’n cael ei gwerthu. Mae mwy o llyfrau pobi yn cael eu werthu, hefyd mae mwy o clybiau pobi a mwy o poptai annibynnol wedi cael eu sefydlu. Yn ôl un dadansoddwr, mae dros 60% o oedolion y DU wedi pobi gartref o laiaf unwaith yn 2013, o’i gymharu â 33% yn unig yn 2011.

**Atebion**

8

i. Rwyf wrth fy modd = *Rwyf yn fy seithfed ne'*
ii. Dydw i ddim yn cofio = *Does gen i 'm co' (Does gen i ddim cof)*
iii. Ei gwybodaeth a'i thalent = *Ei dysg a'i dawn*
iv. Dydy'r cyffro byth yn gorffen = *Mae'r bwrlwm yn ddi-rai*
v. Dim o werth = *Dim byd o fudd*.

9

Mae saith sillaf ym mhob llinell. Trefn yr odlau: ABCB. Mae llinellau 1 a 3 yn ddiacen (pobi, Berry), a llinellau 2 a 4 yn acennog (iawn, dawn).

10

| | |
|---|---|
| Roedd ef/hi yn darllen. | **darllenai** |
| Roedd ef/hi yn canu. | **canai** |
| Roedd ef/hi yn coginio. | **coginiai** |
| Roedd ef/hi yn poeni. | **poenai** |
| Roedd ef/hi yn bwyta. | **bwytai** |
| Roedd ef/hi yn eistedd. | **eisteddai** |
| Roedd ef/hi yn cerdded. | **cerddai** |
| Roedd ef/hi yn meddwl. | **meddyliai** |